Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil
National Assembly for Wales | Research Service

Dylid Diogelu Coed Yw Hynafol Cymru

Y Pwyllgor Deisebau | 11 Tachwedd 2019
Petitions Committee | 11 November 2019

Cyfeirnod: RS19/10865-1

Rhif y ddeiseb: P-05-911

Teitl y ddeiseb:Dylid Diogelu Coed Yw Hynafol Cymru

Geiriad y ddeiseb:Dyma ofyn i chi lofnodi fy neiseb yn galw am i goed Yw hynafol gael eu diogelu yn ôl y gyfraith. Ar hyn o bryd nid yw'r coed prydferth hyn yn cael eu diogelu'n gyfreithiol. Mae'n hollbwysig i ni ddiogelu'r rhan hanfodol hon o'n treftadaeth â mesurau diogelu cyfreithiol penodol cyn i ni golli rhagor o goed. Mae'r coed Yw hyn wedi tyfu ym Mhrydain ers miloedd o flynyddoedd. Maen nhw'n henebion byw ac yn dystion hynafol i hanes ein cyndeidiau a'n gwareiddiad. Rhaid i ni eu diogelu ar fyrder cyn i ragor gael eu colli.

1. Y cefndir

Y goeden ywen gyffredin (*Taxus baccata)* yw'r rhywogaeth goed frodorol yn Ewrop sydd wedi byw hwyaf. Gellir canfod coed yw ledled y DU, ond yn aml mewn mynwentydd. Gallant oroesi cyhyd â 3,000 o flynyddoedd a nodir eu bod yn hynafol pan fyddant yn cyrraedd tua 900 oed, ac yn hynod pan fyddant yn cyrraedd 500 oed.

Yn y DU y mae'r rhan fwyaf o'r coed yw hynafol sydd ar ôl yn Ewrop. Mae'r Grŵp Yw Hynafol wedi nodi 407 o yw hynafol neu hynod yng Nghymru a 978 yn Lloegr, o'u cymharu â 77 yn Ffrainc, a phedwar yn yr Almaen a Sbaen.

Mae Coed Cadw wedi creu Rhestr Coed Hynafol i fapio'r coed hynaf a phwysicaf yn y DU. Ystyrir bod coed hynafol yn unigryw gan eu bod yn darparu gwasanaethau ecosystem pwysig, gan gynnwys cynefin unigryw ar gyfer bywyd gwyllt ac maent yn storio carbon sylweddol. Yn aml, cyfeirir at goed hynafol a hynod, a choed ag arwyddocâd hanesyddol neu ddiwylliannol penodol fel Coed o Ddiddordeb Arbennig. Mae rhai o'r coed o ddiddordeb arbennig mwyaf hynafol, coed yw yn aml, yn gysylltiedig ag arferion crefyddol hynafol.

Coed yw yw'r ddwy goeden hynaf yn y DU. Mae ywen Fortingall mewn mynwent yn Perth, yr Alban, ac mae ywen Defynnog mewn mynwent yn Nefynnog, ger Pontsenni ym Mhowys, Cymru. Amcangyfrifir bod y ddwy goeden rhwng 2,000 a 3,000 oed, ond mae rhai asesiadau'n dweud bod y coed mor hen â 5,000 oed.

Deddfwriaeth

Ar hyn o bryd, nid oes dim amddiffyniad cyfreithiol *yn benodol* ar gyfer coed yw hynafol yn y DU. O dan *Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*, caiff awdurdodau cynllunio lleol wneud Gorchymyn Diogelu Coed (TPO) i ddiogelu coeden benodol, grŵp o goed neu goetir, sy'n dod â budd sylweddol o ran amwynderau i'r ardal leol. Mae TPO yn diogelu coed rhag niwed neu ddinistriad bwriadol, gan ei gwneud yn drosedd cymynu coeden a ddiogelir drwy orchymyn, ei difrigo, ei thocio, ei diwreiddio, ei niweidio neu ei dinistrio'n fwriadol, neu achosi neu ganiatáu'r gweithredoedd hyn heb ganiatâd yr awdurdod cynllunio lleol.

Mae deddfwriaeth a rheoliadau ychwanegol a all ddiogelu coed yn cynnwys; ardaloedd cadwraeth dynodedig, trwyddedau cymynu coed a chyfamodau cyfyngol.

Ymdrechion i ddiogelu coed yw hynafol

Yn 2014, lansiodd yr Eglwys yng Nghymru ymgyrch i helpu i ddiogelu yw, gan gynnig gwybodaeth a chyngor i blwyfi a chymunedau ynghylch rheoli coed yw hynafol.

Yn ddiweddarach yn 2019, mae deisebau sy'n galw am amddiffyniad cyfreithiol i yw hynafol wedi'u lansio yn y DU ac yng Nghymru. Mae mwy na 230,000 o bobl wedi llofnodi deiseb i arbed coed yw hynafol Prydain cyn i ni golli rhagor'.

2. Camau Llywodraeth Cymru

Mae polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer diogelu coetir wedi'i nodi yn y strategaeth Coetiroedd i Gymru, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018. Mae'r strategaeth yn nodi bod Llywodraeth Cymru am weld bod 'coed unigol, coed hynafol, coetir pori

a choetiroedd yn ein hardaloedd trefol ac yng nghefn gwlad yn cael eu deall, eu diogelu a'u rheoli'n well oherwydd eu pwysigrwydd diwylliannol, eu hansawdd esthetig a'u gwerth treftadol'. Mae'r strategaeth yn cydnabod bod 'coed hynafol yn adnodd diwylliannol sy'n cysylltu pobl â lle, amgylchedd a diwylliant (y gorffennol a'r presennol), ac sydd hefyd yn darparu cynefin di-dor i rai mathau o gen, mwsoglau a ffyngau sy'n prinhau mewn tirweddau gwledig a threfol fel ei gilydd'.

Mae Polisi Adnoddau Naturiol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2017, yn nodi ymrwymiad i wneud y canlynol:

> [...] rheoli coed a choetiroedd sydd â gwerth amgylcheddol uchel, gan gynnwys safleoedd lle ceir coed hynafol, hynod a choed treftadaeth, sef adnodd unigryw sy'n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau ecosystem.

Mae Rhifyn 10 Polisi Cynllunio Cymru (PCC), a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018, yn amlinellu canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio, sy'n cynnwys fframwaith ar gyfer diogelu coed, coetiroedd a pherthi. Mae paragraff 6.4.26 o PCC yn nodi'r canlynol:

> Mae coetiroedd hynafol a choetiroedd lled-naturiol a choed hynafol aeddfed a threftadaeth unigol yn adnoddau naturiol na ellir mo'u hadfer, ac maent yn werthfawr o ran tirwedd, bioamrywiaeth a diwylliant. Dylai coed a choetiroedd o'r fath gael eu gwarchod rhag datblygiad a fyddai'n arwain at eu colli neu eu dirywio oni bai bod buddiannau cyhoeddus arwyddocaol a chlir o wneud hynny; dylai'r mesurau gwarchod hyn atal gweithrediadau a allai achosi difrod a cholled diangen.

Mae paragraff 6.4.25 yn nodi'r canlynol:

> [...] ni ddylid caniatáu cael gwared ar goetir yn barhaol oni byddai hynny'n sicrhau buddiannau cyhoeddus arwyddocaol a chlir. Lle ceir gwared ar goetir neu goed fel rhan o gynllun arfaethedig, bydd disgwyl i ddatblygwr blannu coed yn eu lle.

3. Camau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Trafodwyd y ddeiseb gan y Pwyllgor Deisebau ddiwethaf yn 2017: P-04-439: Diogelu coed hynod a choed treftadaeth Cymru ymhellach. Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb o ystyried bod y deisebwyr yn aelodau o Grŵp Tasg a Gorffen ar goed hynafol, hynod a threftadaeth yng Nghymru a wnaeth argymhellion i Lywodraeth Cymru (PDF 218KB), a'r ffaith bod Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar y pryd, wedi ymrwymo i ystyried pa gamau y dylid bwrw ymlaen â hwy.

Ym mis Mawrth 2019, ymatebodd Lesley Griffiths i ddau gwestiwn ysgrifenedig ynghylch diogelu coetiroedd a choed brodorol. Ar 8 Mawrth 2019, cyflwynodd Janet Finch-Saunders AC gwestiwn ysgrifenedig (pwyslais wedi'i ychwanegu):

> A wnaiff y Gweinidog egluro pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i helpu i **amddiffyn coed brodorol yng Nghymru**, a nodi faint o arian sydd wedi'i ddyrannu i helpu i ariannu'r gwaith o blannu coed yn 2019/20?

Ar 12 Mawrth 2019, cyflwynodd Nick Ramsey AC gwestiwn ysgrifenedig:

> Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i ddiogelu ardaloedd coetir yng Nghymru?

Mewn ymateb i'r cwestiynau ysgrifenedig hyn, ysgrifennodd y Gweinidog y canlynol (pwyslais wedi'i ychwanegu):

> The Welsh Government's 'Woodland for Wales' forestry strategy outlines the importance of native trees to our landscape. [...] Planning Policy Wales 10 provides greater protection for **ancient and semi-natural woodlands and individual ancient, veteran and heritage trees**. It stipulates that such trees and woodlands should be afforded **additional levels of protection** and every effort should be made to prevent potentially damaging operations and their unnecessary loss. In the case of a site recorded on the Ancient Woodland Inventory, authorities should consult with NRW. Planning authorities should also have regard to the Ancient Tree Inventory.

Ar 18 Hydref 2019, ymatebodd Julie James AC i'r ddeiseb hon mewn llythyr at Janet Finch-Saunders AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau, yn nodi'r canlynol:

> Mae coed hynafol a chynhenid (gan gynnwys Coed Yw) yn adnoddau diwylliannol sy'n cysylltu pobl â lleoedd, yr amgylchedd a diwylliant. Maent hefyd yn sicrhau parhad o ran cynefinoedd o fewn tirweddau gwledig a threfol. [...] Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gan goetiroedd a choed hynafol swyddogaeth hollbwysig o safbwynt darparu gwahanol wasanaethau ecosystem.

Yn y llythyr, nid ymrwymodd i gamau penodol i ddiogelu coed yw hynafol.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.